

TASG 1 : DADANSODDI

Taflen unigol i'w lawrlwytho

- a) Edrychwch eto ar y rhestr o apiau yn y gerdd.
- b) Gwnewch ddwy restr, un o'r rhai sy'n apiau go iawn, ac un arall o'r rhai sy'n ffrwyth dychymyg y bardd. A oes rhai o'r apiau yn rhai amhosib i'w creu?

TASG 2 : CREADIGOL

Dewiswch dri o'r apiau dychmygol, a cheiswch ddyfalu sut y byddai'r apiau hynny'n gweithio ar declyn go iawn.

TASG 3 : CREADIGOL

Ysgrifennwch gerdd sy'n dilyn patrwm y gerdd 'Ap', gan gynnwys apiau newydd sy'n dod o'ch dychymyg chi.

TASG 4 : CREADIGOL

Dychmygwch eich bod wedi derbyn miloedd o bunnoedd i ymchwilio i bosibiliadau datblygu un ap newydd sbon. Pa ap y byddech chi'n ceisio'i ddatblygu? Pam?

- Ysgrifennwch ddisgrifiad clir o sut y byddai'r ap hwnnw'n gweithio.
- NEU
- Lluniwch gyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ap.

Byddwch yn greadigol. Byddwch yn ddychmygus. Byddwch yn fanwl. Byddwch yn ddifyr (dim mwy nag un ochr o A4).

TASG 1 : DADANSODDI

a) 'Get connected' yw is-deitl y gerdd. Pam hynny?

b) Ydych chi hefyd yn credu bod y bachgen yn y gerdd yn hapus gyda'r berthynas fel ag y mae? Pa eiriau, ymadroddion neu linellau yn y gerdd sy'n cefnogi eich ateb?

TASG 2 : DADANSODDI

a) Pam, dybiwch chi, eu bod nhw'n cynnal perthynas ar y sgrîn yn hytrach na wyneb yn wyneb?

b) Mae'n sefyllfa gyffredin erbyn hyn, ond a ydych chi'n credu bod modd cynnal perthynas a chyfeillgarwch drwy gyfathrebu electronig yn unig? Pam?

c) A oes peryglon yn gysylltiedig â hyn? Pam?

TASG 3 : CREADIGOL

Mae mwy a mwy o bobl bellach yn defnyddio emojis a symbolau i gyfathrebu.

Ceisiwch greu sgwrs sy'n gyfres o negeseuon rhwng ffrindiau, sgwrs sy'n gwneud defnydd helaeth o emojis a symbolau o bob math (gan gynnwys atalnodau a rhifau). Cewch ddefnyddio hyd at **dri gair go iawn** ymhob neges, cyhyd â bod y geiriau hynny'n rhai Cymraeg (dim mwy nag un ochr o A4).

TASG 4 : CREADIGOL

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Mewn parau, ysgrifennwch sgwrs rhwng dau ffrind ar y cyfryngau cymdeithasol (WhatsApp, Facebook Messenger, iMessage, Snapchat ayyb) ar un o'r pynciau canlynol:

- Gwyliau'r Haf
- Gwaith Cartref
- Cariad
- Parti Pen-blwydd
- Bwlio

Bydd angen o leiaf 10 neges gan bob ffrind.

TASG 1 : DADANSODDI

Mae'r bardd yn ailadrodd 'cewch fy' drwy'r englyn.

Pam y tybiwch chi y mae'n gwneud hyn? Pa effaith y mae'n ceisio'i chreu?

TASG 2 : TRAFOD / DADANSODDI

Ceisiwch ddyfalu sut berson yw'r ferch ysgol yn yr englyn.

- Pam ei bod hi wedi rhoi'r hunlun hwn ar Facebook?
- Sut fywyd sydd ganddi hi, tybed?
- A ydych yn cydymdeimlo â hi? Pam?

TASG 3 : YSGRIFENNU

Dychmygwch eich bod wedi gosod llun ohonoch chi eich hun ar Facebook neu wefan gymdeithasol debyg. Mewn pedair llinell, nodwch ba negeseuon y byddech yn dymuno i'r llun hwn gyfleu i'r sawl sy'n gweld y llun ar-lein.

TASG 4 : YSGRIFENNU (SGRIPTIO)

Dychmygwch fod y ferch yn yr englyn yn gwneud dyddiadur fideo o wythnos yn ei bywyd hi ei hun. Ysgrifennwch sgript (300 o eiriau) un o'r cofnodion dyddiadur hynny, gan gofio:

- sôn am ddigwyddiadau penodol yn ystod y dydd
- sôn am ymateb y ferch i brofiadau'r dydd ac am y modd y mae'r pethau hynny yn nodweddiadol o'i bywyd.

Cofiwch ysgrifennu yn y person cyntaf, gan dychmygu mai chi yw'r ferch.

(Byddai'n syniad da perfformio'r cofnod dyddiadur fideo hwn, a'i ffilmio, hyd yn oed.)

TASG 5 : YMCHWILIO

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Englyn yw'r enw ar y ffurf hon o gerdd.

- a) Mewn grwpiau, ewch i chwilio mewn llyfrau ac ar y we am englyn arall sy'n apelio.
- b) Cyflwynwch yr englyn i'r dosbarth, gan egluro pam eich bod wedi dewis yr englyn a beth yw neges y bardd.
- c) Casglwch englynion y dosbarth ynghyd.

TASG 1 : TRAFOD / DADANSODDI

Mewn parau, rhestrwch yr ymadroddion yn llinellau 1-8 sy'n awgrymu bod bywyd y bardd yn un llawn a phrysur iawn.

TASG 2 : DADANSODDI

Ceisiwch esbonio yn eich geiriau chi eich hun beth yn union y mae'r bardd wedi sylweddoli wrth iddo edrych yn y drych ar ôl i'r beic modur basio heibio iddo (llinellau 9-14)?

TASG 3 : CREADIGOL

- Pam y tybiwch chi y dewisodd Gwion Hallam y teitl 'Gweld Hen Ffrind'?
- Lluniwch restr fer o bump teitl arall a fyddai wedi bod yn addas i'r gerdd.

TASG 4 : YSGRIFENNU

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Dychmygwch mai chi yw'r bardd sydd newydd gael y profiad sy'n cael ei ddisgrifio yn y gerdd.

Ysgrifennwch e-bost (150-200 o eiriau) at hen ffrind sy'n byw yn bell i ffwrdd, ond a oedd hefyd yn perthyn i'r un criw ffrindiau â'r bachgen 'a gafodd ei ladd ar foto-beic' slawer dydd.

Yn yr e-bost esboniwch y profiad yr ydych newydd ei gael yn y car y diwrnod hwnnw, gan nodi eich ymateb a'ch teimladau.

Ceisiwch osgoi defnyddio'r un geiriau'n union â Gwion Hallam, os yw'n bosib.

TASG 1 : GWAITH CÔF

Mewn parau, dysgwch englyn Idris Reynolds ar eich cof, gan brofi eich gilydd am yn ail.

I hwyluso'r dasg, beth am rannu'r englyn yn ddwy: dysgwch y ddwy linell gyntaf i gychwyn, ac wedyn y cwpled olaf?

TASG 2 : YMCHWILIO

Ceisiwch ddod o hyd i:

- a) Un o luniau Kyffin Williams o gi defaid.
- b) Englyn enwog Thomas Richards 'Ci Defaid' sy'n cychwyn gyda'r llinell 'Rhwydd gamwr hawdd ei gymell'.

Sut maen nhw'n cymharu ag englyn Idris Reynolds fel portread o gi defaid?

TASG 3 : YMCHWILIO / DADANSODDI

Atgoffwch eich hun o stori Gelert, ci Llywelyn Fawr.

- a) Beth yw rhinweddau Gelert fel cymeriad yn y stori?
- b) Pa rai o'r rinweddau hyn sydd hefyd gan y ci defaid yn englyn Idris Reynolds?

TASG 4 : CREADIGOL

a) Lluniwch boster clir ac atyniadol sy'n annog perchnogion i drin eu cŵn mewn modd cyfrifol.

b) Rhestrwch dri o bethau y dylsai'r perchnogion wneud a thri o bethau **na** ddylsai'r perchnogion wneud o safbwynt gofalu am eu cŵn.